

ANN KIRK

Ganwyd Ann yn Berlin, yr Almaen yn 1928. Yn 1933 daeth y Nazïaid i rym a newidiodd popeth i Ann a'i theulu. Ar ôl pogrom Kristallnacht yn 1938, pan oedd Ann yn 11 oed, theithiodd i'r DU ar ei phen ei hun yn y *Kindertransport*.



Fel plentyn 10 oed, roedd fy
nheimpladau ar fy nhaith yn
gymysgedd o ofn, ond cyffro hefyd -
teimlad roedd fy rhieni wedi ei annog
- gan fy ngalluogi i gredw'n gryf y
byddent yn ymuno â fi yn y dyfodol
agos. Yn anffodus, wrth gwrs, ni
ddigwyddodd hynny.

Cefais fy ngeni yn Berlin yn 1928, er oherwydd i fy rhieni symud cymaint, dim ond chwe mis cyntaf ac olaf fy mywyd Almaeneg y treuliais i yno. Pan symudodd y Nazïaid i'r Rheinland y des i'n ymwybodol ohonynt gyntaf. Rwy'n cofio sefyll wrth ymyl y ffordd wrth i'r milwyr orymdeithio i mewn.

Roeddem yn byw yn Cologne ar y pryd lle roeddwn yn mynd i Kindergarten Iddewig. Roedd gennym forwyn oedd yn gofalu amdanaf tra roedd gan Mam swydd lawn amser, oedd yn anghyffredin bryd hynny. Wrth i bethau ddatblygu, sylweddolais i nad oedd pethau cystal ag y dylent fod. Roedd Mam a Dad yn poeni mwy a mwy. Pan oeddwn tua chwech oed, sylwais ar hysbysfwrdd papur newydd yn dweud pethau cas am yr Iddewon. Roedd gennym radio ac rwy'n gallu cofio clywed llais croch Hitler.

Tua 1935-7, roeddwn i'n mynd i ysgol y Wladwriaeth o hyd lle doeddwn i ddim yn cael fy nhrin yn rhy wael. Gan fod gen i wallt coch, roeddwn i'n cael fy mhryfocio beth bynnag! Yn ystod y cyfnod hwn doedd Iddewon ddim yn cael eistedd ar feinciau mewn parc, mynd i byllau nofio, y theatr na'r sinema ac yn raddol cafodd Iddewon eu hamddifadu o'u hawliau dinesig. Yna aeth fy nhad i Berlin i ailhyfforddi fel triniwr traed/tylinwr gan ei fod yn credu y byddai'n ei wneud yn haws i ni ymfudo os oedd ganddo broffesiwn yn hytrach na bod yn ddyn busnes. Hyd yna roedd ei holl geisiadau i ymfudo wedi methu. Cafodd Mam swydd tua 300 milltir o Berlin ac aeth hi a fi i fyw yno am tua chwe mis. Pan gymhwysodd Dad, aeth Mam a fi i ymuno ag e' yn Berlin ym mis Medi 1938, pan oeddwn yn ddeg oed. Dim ond cleifion Iddewig oedd yn cael eu cymryd ac roedd ganddo stamp rwber oedd yn dweud 'Triniwr traed i'r Iddewon'.

Roedd yn anodd iawn i Iddewon ddod o hyd i lety yn Berlin. Roeddem yn gallu byw gyda chefnider i Mam oedd yn gweithio fel gofalwr mewn ysgol Iddewig ac roedd ganddo ystafelloedd sbâr yn ei fflat. Roedd i'n gallu mynd i'r ysgol honno hefyd. Ar ddechrau mis Tachwedd rwy'n cofio gweld hysbysfyddau papur newydd yn datgan 'Saethwyd von Rath'. Dywedodd Dad 'Mae hynny'n golygu trafferth.' Ar noson 9fed o Dachwedd cefais fy neffro gan fy rhieni a'r cefndryd yn rhuthro o amgylch, ond dywedodd neb wrthyf beth oedd o'i le. Yn y bore dywedodd fy rhieni wrthyf na allem aros gyda'r cefndryd, Paciwyd bag ac aethom allan i'r stryd lle y gwelais wydr ym mhob man. Roedd 'na lawer o heddweision a Nazi'aid yn gwatwar wrth i Iddewon sgubo'r gwydr i fyny a gosod bordiau dros y ffenestri. Roeddem yn symud drwy'r dydd, yn cerdded, cymryd bysiau a'r tiwb. Gwelais synagogau ar dân a hen ddyn yn eistedd yn ei gert gyda'i lyfrau'n llosgi o'i amgylch hefyd. Credodd Dad y gallem osgoi gael ein harestio wrth beidio ag aros yn rhy hir yn unman. Y noson honno aethom i aros mewn fflat oedd ffrind i Mam newydd ei adael gan ei bod hi wedi ymfudo i Brydain. Roedd wedi rhoi'r allwedd i Mam. Roedd y fflat gwag uwchlaw gorsaf heddlu ac roedd Dad yn credu y byddem yn ddiogel yno. Sleifiodd Mam a fi i fyny'r grisiau ac unwaith i ni gyrraedd y fflat, ysgytiodd Mam y llenni i ddweud wrth Dad yn y stryd fod popeth yn glir. Ar ôl ychydig, tawelodd pethau a daethom o hyd i fflat.

Ar yr adeg hon, ym Mhrydain, roedd sefydliad o'r enw *Kindertransport* wedi cael ei sefydlu. Roedd Rabbi Dr Israel Mattuck o'r Synagog Iddewig Rhyddfrydol yn St John's Wood wedi gofyn i'w gynulleidfa ystyried cymryd plant o bob cwr o Ewrop. O ganlyniad, trwy gyfres o gyd-ddigwyddiadau, cytunwyd y byddwn yn mynd i ofal dwy chwaer, Millie a Sophie Levy, oedd yn weithwyr cymdeithasol yn yr 'East End'. Anfonwyd llawer o lythyrau a ffotograffau rhyngom. Cefais fy nghofrestru ar restr y *Kindertransport* a phan ddaeth fy enw i'r brig ym mis Ebrill 1939 aeth fy rhieni â fi i'r orsaf drenau lle roedd llawer o rieni a phlant mewn dagrau. Ond, roeddem ni'n esgus fy mod yn mynd ar antur wych. Yn ddiweddarach, wrth i'r trên fynd trwy orsaf, dyna lle roedd fy rhieni'n codi llaw'n wyllt arnaf. Roeddwn yn 10 oed; dyna'r tro olaf i mi eu gweld.

Aethom ar long Americanaidd yn Hamburg a chyrraedd Southampton. Ar ôl cyrraedd yno aethom ar drên i Lundain ac yn Waterloo, yn gwisgo labeli o amgylch ein gyddfau a dim ond yn cario cês bach, arhosom i'n henwau gael eu galw. Pan alwyd fy enw, es at y barrau a dyna lle roedd y ddwy wraig roedd yn eu hadnabod o'r

lluniau. Yn ogystal â fy ngwersi ysgol, roedd Mam wedi dysgu ychydig o Saesneg sylfaenol i mi, felly roeddwn yn gallu ymdopi. Ar y dechrau anfonodd y 'Modrybedd' fi i ysgol Breswyl, ac roedd yn gas gen i hynny, ond wedyn roeddwn yn gallu mynd i Ysgol Uwchradd South Hampstead a wnes i fwynhau gweddill fy amser ysgol yno. Roedd tipyn o blant Iddewig eraill yn yr ysgol ac roedd llawer ohonynt yn ffoaduriaid hefyd. Roeddwn yn gallu ysgrifennu at fy rhieni ddwywaith neu dair yr wythnos cyn y rhyfel. Unwaith i'r rhyfel ddechrau, dim ond negeseuon 25 gair unwaith y mis trwy'r Groes Goch oedd yn cael ei ganiatáu. Ym mis Rhagfyr 1942 cawsom neges gan Dad oedd yn dweud 'Sori newyddion drwg. Ymfudodd Mami 14eg Rhagfyr. Mae gen i ofn ond rwy'n hyderus y bydd aduniad teuluol ar ôl y rhyfel'. Ym mis Ionawr daeth un neges bellach, ond ar ôl hynny roedd tawelwch llwyr.

Yn 18 oedd roeddwn am fynd i'r brifysgol ac wedi cael y graddau i wneud hynny, ond doedd y Modrybedd ddim yn caniatáu hynny. Roeddent yn gadarn os byddai fy rhieni, trwy ryfedd wyrth, yn goroesi'r gwersylloedd, byddai'n rhaid i mi allu eu cefnogi ac felly cefais fy anfon i goleg ysgrifenyddol dda. Ar y pryd roeddwn yn anfodlon iawn, ond yn ddiweddarach sylweddolais i ba mor gall fuon nhw a pha mor ffodus y bues i fod yn eu gofal.

Heddiw

Cyfarfu Ann Bob Kirk, plentyn arall o'r *Kindertransport*, mewn clwb ar gyfer ffoaduriaid Iddewig ifanc yng ngofal Woburn House. Priodon nhw ar 21 Mai 1950.

Heddiw mae Bob ac Ann yn gweithio'n ddiflino i godi ymwybyddiaeth am yr Holocost a'r profiad o'r *Kindertransport* trwy siarad mewn gweithgareddau ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost a thrwy gydol y flwyddyn. Mae ganddynt ddau fab a thri o wyrion hyfryd.